

# CYNGOR CYMUNED LLANDYGAI

## LLANDYGAI COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid  
*Clerk and Chief Financial Officer*  
**Bethan Roberts**  
Rhif Ffôn: 01248 602131  
Ebost: [CyngorLlandygai@ogwen.org](mailto:CyngorLlandygai@ogwen.org)

26 Stryd Fawr  
Bethesda  
Gwynedd  
LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol (Cyfarfod Rhithiol) o'r Cyngor a gynhaliwyd ar  
**Nos Iau 17 Tachwedd 2022 am 18.30**  
yng Nghanolfan Tregarth

### PRESENNOL:

Y Cynghorydd Dafydd Owen

Y Cynghorydd Mary Hayes

Y Cynghorydd Mair Owen Pierce

Y Cynghorydd Huw Jones

Y Cynghorydd Gareth P Williams

Y Cynghorydd David H Roberts

Y Cynghorydd Iwan Hywel

Y Cynghorydd Sian Beidas

Y Cynghorydd Dafydd Roberts

- 1. Croesawyd** pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Cyng. Mair Owen Pierce. Adroddwyd ei fod yn braf iawn cael gweld pawb a gael cyfarfod wyneb i wyneb.

**Ymddiheuriadau** gan y Cyng. Lowri Jones, Anwen Jones a Beca Roberts.

### 2. Cofnodion

**Penderfynwyd:** Derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Hydref 2022.

### 3. Materion yn codi o'r cofnodion

- 3.1 Problemau gôr-yrru yn Mynydd Llandygai ac wrth Ysgol Bodfeurig** – Y Clerc wedi holi am manylion cyswllt y swyddog yn Llywodraeth Cymru sydd yn delio gyda grantiau Llwybrau Diogel mewn Cymunedau a Gostwng Cyflymder, ond dim ymateb hyd yn hyn.

- 3.2 Llecyn Tir, Bont Tŵr** – Nodwyd fod Chris Burgess, Breedon wedi gofyn i cwmni Savills cysylltu a'r Clerc ynglyn a hyn, y Clerc wedi danfon rhifau ffôn ond heb dderbyn unrhyw galwad hyd yn hyn. Y Clerc wedi gofyn am ymateb neu cyfarfod ar y mater sawl gwaith, dim ymateb hyd yn hyn.

- 3.3 Llwybr Rhif 3** – Adroddwyd bod Cyngor Gwynedd wedi archwilio'r llwybr anghywir, ac fod y Swyddog Llwybrau am edrych ar y mater cyn gynted a phosib.

- 3.4 Drychau traffig** - Y Clerc wedi holi Cyngor Gwynedd os oes modd gael drych traffig ar pen lôn Llwybr Main o gyfeiriad Lôn y Grug. Andrew Gregson, Cyngor Gwynedd wedi ymateb i ofyn am cadarnhad o leoliad y drych, penderfynwyd fod angen dau drych, un bob ochr.

- 3.5 Lôn y Wern, Tregarth** – Nodwyd y Cyngor. Dafydd Roberts a Sian Beidas fod angen mwy o waith ar y ffordd rhwng Eglwys Gelli a Cororion. Y Clerc i gysylltu â Chyngor Gwynedd.

- 3.6 Mainc Pentref Llandygai** – Y Clerc wedi bod allan i'r safle i edrych, a nodwyd fod angen sylfaen slab concret ar y safle cyn rhoid fainc newydd. Y Clerc wedi edrych am brisiau, ond hefyd wedi holi cwmni lleol am bris.
- 3.7 Adra – Ymateb i llythyr Datblygiad Cae Gors** – Nodwyd bod y Cyng. Dafydd Roberts wedi creu llythyr ymateb, a'r Clerc wedi'i gylchredeg i'r holl aelodau. Penderfynwyd bydd y Clerc yn danfon y llythyr cyn gynted a phosib.
- 3.8 Ffens Canolfan Tregarth** – y Clerc wedi trefnu i gael dyfynbrisiau i wneud y gwaith. Nodwyd Cyngor Gwynedd efallai y bydd arian grant ar gael i wneud y math yma o waith, a bod Dafydd Einion Jones o Chyngor Gwynedd mewn cyswllt â'r Clerc.
- 3.9 Seddi Gwag** – Mae 3 sedd wag ar gael o fewn y Cyngor, y Clerc i hysbesbu'r tair sedd eto. Y Clerc i gysylltu â Ysgol Llandygai a Neuadd Talgai am sedd wag ward Llandygai.

#### **4. Gohebiaeth**

Pawb wedi cael copi o'r rhestr 'Crynodeb o ohebiaeth Tachwedd 2022'

**Cyflwynwyd:** Uned Stadau, Cyngor Gwynedd – Cais gan Clwb Peldroed Seintiau Bangor i ddefnyddio Cae Pel Droed Tregarth – dim gwrthwynebiad.

**Cyflwynwyd:** Ysgrifenyddiaeth Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – penderfynwyd bydd y Cynghorwyr yn ymateb yn unigol.

**Cyflwynwyd:** Hyfforddwr Cyflogadwyedd a Hwylusydd Grantiau Tesco – Grantiau Cymunedol Tesco – y Clerc i gael mwy o wybodaeth am y grant. Trafodwyd y posibilrwydd o gael artist graffiti i greu murlun ar Canolfan Tregarth, sy'n gweddu gyda'r ardal, ac i gael plant ifanc yr ardal i gymeryd rhan.

#### **5. Llwybrau Cyhoeddus**

Adroddwyd fod y Clerc wedi gael cyfarfod gyda Swyddog Llwybrau, Cyngor Gwynedd. Cadarnhawyd y bydd y swyddog yn danfon eglurhad o cyfrifoldebau y Cyngor i'r Clerc. Penderfynwyd y bydd y Clerc yn trefnu cyfarfod o'r Is Bwyllgor Llwybrau cyn gynted a phosib i drafod y ffordd ymlaen hefo'r tendr am y gwaith.

#### **6. Gwaith y mis**

**Hysbysfwrdd ger Ysgol Tregarth** – Adroddwyd fod coesau'r hybyswrdd yma angen ei drwsio. Penderfynwyd y bydd y Cyng. Dafydd Owen yn mynd i edrych am bris i'w drwsio, a bydd y Clerc yn chwilio am pris un metel newydd.

**Lon Hafoddy** – Adroddwyd fod llawer o dyllau ar hyd y ffordd – y Clerc i hysbysu Cyngor Gwynedd.

**Cynllun Lliniaru Llifogydd Mynydd Llandygai** – Penderfynwyd y bydd y Cyng. Gareth Williams yn cynrychioli'r Cyngor ar y prosiect hwn.

#### **7. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr**

**Canolfan Tregarth** – Adroddwyd y Cyng. Dafydd Owen am y gwelliannau yn y ganolfan.

**Ysgol Bodfeurig** – Nodwyd fod y Cyng. Mary Hayes wedi mynychu'r cyfarfod llywodraethwyr diwethaf, a nodwyd y byddai'r ysgol yn hoff iawn o gael un cynrychiolydd arall oddi ar y Cyngor, pan fydd y seddi gwag wedi'i lenwi.

#### **8. Adroddiad Ariannol, Rheoli Risg a Gweinyddu**

**8.1** Adroddwyd beth oedd y ffigyrau yn y banc ar ddiwedd mis Hydref. Derbyniwyd yr adroddiad.

## 9. Taliadau

Dim

## 10. Penderfyniadau Cynllunio

<b>C18/0767/25/LL</b>	Coed Wern, Glasinfryn Safle arfaethedig ar gyfer 40 llety, adeilad derbynfa, a chreu 2 nodweddion dŵr. Ynghyd a ffurfio ffyrdd mynediad cysylltiedig a meysydd parcio, tirweddu a gwaith cysylltiedig eraill. <b>Penderfyniad:</b> Ar y gweill.
<b>C22/0336/16/MW</b>	Alfred Mcalpine Slate Products, Chwarel Penrhyn Cais ar gyfer estyniad i weithfeydd cloddio llechi <b>Penderfyniad:</b> Ar y gweill.
<b>C22/0327/16/AC</b>	Alfred Mcalpine Slate Products, Chwarel Penrhyn Cais o dan Adran 73 i amrywio amod 1 a 3 ar ganiatâd cynllunio C16/1164/16/MW (Cais o dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995 i benderfynu ar amodau dan adolygiad cyfnodol) er mwyn ymestyn yr amser ar gyfer cloddio a gweithio deunydd hyd at 2035, ymestyn amser ar gyfer adfer y safle hyd at 2037 a diwygio cynlluniau er mwyn cynnwys estyniad i'r ardal cloddio <b>Penderfyniad:</b> Ar y gweill.
<b>C22/0430/16/DT</b>	Arfon Lôn Y Grug, Mynydd Llandygai Dymchwel rhan o estyniadau presennol a codi estyniad deulawr ar gyfer ystafelloed byw, llofft a ystafell molchi ychwanegol <b>Penderfyniad:</b> Ar y gweill.
<b>C22/0874/16/LL</b>	Plot C5, Parc Bryn Cegin, Llandygai, Codi adeilad i'w ddefnyddio fel masnachwr adeiladu (defnydd sui generis) a strwythurau iard cysylltiedig, manau llwytho, maes parcio, cynigion tirlunio ynghyd â gwaith cysylltiedig. <b>Penderfyniad:</b> Ar y gweill.
<b>C22/0680/16/AM</b>	Tyn Y Clwt Isaf, Tregarth, Cais amlinellol ar gyfer gosod pedair uned wyliau llety amgen dros-dro

**Penderfyniad:** Gwrthodwyd.

**C22/0946/16/LL**

Zip World, Chwarel Penrhyn, Bethesda,  
Codi strwythur ffrâm ddur i'w ddefnyddio fel  
atyniad twristiaeth antur (Gravity Explorer)  
ynghyd â gwaith cysylltiedig

**Penderfyniad:** ar y gweill

**C22/0871/16/LL**

Zip World, Chwarel Penrhyn, Bethesda,  
Gosod canopi "kit-up" (ôl weithredol) a newid  
defnydd tir i osod tram er gwasanaethu bwyd  
a diod.

**Penderfyniad:** ar y gweill

## 11. Ceisiadau Cynllunio

**C22/0985/16/HD**

Breedon, Chwarel Penrhyn, Bethesda  
Cais rhybudd o flaen llaw i ddymchwel  
adeiladau

**Penderfyniad:** Cefnogi

**C22/1051/16/CT**

Ylang Ylang Cottage, 11 Pentre Llandygai,  
Llandygai

Gwaith i goed mewn ardal gadwraeth.

**Penderfyniad:** Cefnogi

**CAS-02063-T0L2K8**

Tir ger Pentwmpath, Llandygai  
Cais materion a gadwyd yn ol ar gyfer codi 15  
ty gan gynnwys 3 ty fforddiadwy, yn dilyn  
caniatad amlinellol o dan gyfeirnod

C09A/0518/16/AM

**Penderfyniad:** Dim sylw.

## 12. Unrhyw fater brys arall

Dim.